

2011 Rhif 242 (Cy.46)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tŷ Cerrig, Garndolbenmaen, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 24 Ionawr 2011

Yn dod i rym 28 Ionawr 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn(2).

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Tŷ Cerrig, Garndolbenmaen, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 201-

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 28 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A487 yn Nhŷ Cerrig yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr amseroedd pan fo'r gwaharddiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Ionawr 2011

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
- (2) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pŵerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Terfyn Cyflymder o 30 mya a 10 mya a dim goddiweddyd

Y darn hwnnw o gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 70 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa ddwyreiniol i'r eiddo o'r enw Noddfa hyd at bwynt 80 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd ddwyreiniol â'r Ffordd Sirol sy'n arwain i Garndolbenmaen.